

Gwyddoniaeth Gymhwysol

Cwrs llawn amser dwy flynedd yw'r cwrs Gwyddoniaeth Cymhwysol yn arwain at gymhwyster AS ar ddiwedd Blwyddyn 12 a Lefel A llawn ar ddiwedd Blwyddyn 13.

Bydd y fanyleb yn eich galluogi i ddatblygu sgiliau cyffredinol, gwybodaeth a dealltwriaeth ar sut mae gwyddoniaeth yn cael ei ddefnyddio yn y gweithle. Mae hwn yn cael ei gyflawni trwy amrywiaeth o ddulliau gan gynnwys profiad gwaith, cysylltiadau gyda chyflogwyr, astudiaethau achos, ymweliadau ac ymchwil. Cwrs ymarferol iawn yw hwn gyda myfyrwyr yn dysgu technegau gwyddonol yn gyson.

Cysylltwch â: Mr A. Pickett



Argymhellir bod ymgeisydd sy'n dechrau ar y cwrs yn ymddiddori yn y tri gwyddoniaeth, yn mwynhau gwaith ymarferol heriol ag wedi llwyddo i gael Gradd C neu uwch yn eu TGAU Gwyddoniaeth craidd, Gwyddoniaeth Ychwanegol a Mathemateg.

Cynnwys a Strwythur y Cwrs

UNED UG 1: GWYDDONIAETH IECHYD

Yn yr uned hon byddech yn dysgu sut mae gwyddoniaeth yn cael ei defnyddio i fonitro iechyd yn enwedig mewn cysylltiad â'r systemau cylchredol a resbiradol. Byddech yn dysgu am y gwahanol dulliau sy'n cael eu defnyddio i fonitro a gwneud diagnosis iechyd a rheolau iechyd a diogelwch perthnasol, ar ben materion moesegol mewn diagnosis.

Mae'r uned yn cael ei asesu trwy arbrofion allanol.

UNED UG 2: DADANSODDIAD

Mae hon yn uned ymarferol iawn sy'n ffocysu ar amrediad o ddulliau dadansoddol fel Chromatograffi, Colorimetri, dadansoddiad Foliwmetrig a dadansoddiad anorganig o gyfansawdd ionig. Mae sefydliadau sy'n defnyddio technegau dadansoddol yn cael eu hastudio. Mae'r uned hon yn cynnwys gwaith grŵp a tasgau unigol a bydd yn cael eu chyflwyno fel gwaith portffolio

UNED UG 3: EJNI A'R AMGYLCHEDD

Yn yr uned hon byddwch yn dysgu sut mae egni yn cael ei storio o fewn tanwydd ffosil, cyfnewid egni, creu egni a phroblemau amgylcheddol sy'n gysylltiedig â'r busnes egni. Byddwch yn astudio systemau gwresogi cartref gan edrych ar arbed egni ynghyd â darparwyr egni. Bydd gwaith ymarferol trwy ddadansoddi effeithiolrwydd egni o danwydd arbennig. Mae'r uned yn cael ei asesu trwy waith portffolio.

A2 YMCHWIL GWYDDONIAETH GYMHWYSOL GORFODOL

Mae hwn yn ymwneud â chreu adroddiad ar waith ymchwil estynedig. Gwneir y gwaith ynghyd â'r ysgrifennu o dan oruchwyliaeth a'i farcio'n allanol. Gellir dewis y testunau o Fywydeg, Cemeg a Ffiseg.

Gall myfyrwyr ddewis dwy uned ychwanegol o'r rhestr canlynol ac fe asesir rhain trwy gwaith portffolio.

A2 FFORENSIG GYMHWYSOL: (Yn cael ei argymhell) Defnyddio technegau ymarferol: Dadansoddiad Organig, Titradiad Rhydocs a hefyd dadansoddiad anorganig yn ogystal ag adroddiad ar ddadansoddiad fforensig yr heddlu.

A2 BYWYDEG GYMHWYSOL: Adroddiad ar les/gofal anifeiliaid ac epilïaeth neu gompostio

A2 EJNI GYMHWYSOL: Portffolio ar egni adnewyddadwy, cynhesu byd-eang a chynilo egni.

A2 CYFATHREBU GWYDDONOL GYMHWYSOL: Adroddiad/dyddiadur, cyflwyniad ar wyddoniaeth yn y cyfryngau yn ffocysu ar ddefnyddio gwyddoniaeth yn ymwneud â'r amgylchedd.

A2 GWEITHIO O FEWN GWYDDONIAETH GYMHWYSOL: Wedi'i selio ar leoliad gwaith ac wedi'i asesu trwy ddyddiadur profiad.